

Hysbysiad Statudol Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

HYSBYSIR DRWY HYN, yn unol ag adran 44 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, ar ôl ymgynghori â'r unigolion hynny fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth berthnasol, yn cynnig gwneud y newidiadau rhagnodedig fel a ganlyn:

Ehangu Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod drwy adeiladu estyniad newydd i'r adeilad a lle chwarae awyr agored gyda dyddiad cwblhau disgwyliedig ym mis Medi 2023.

Cynhelir yr ysgol ar hyn o bryd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Cynhaliodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gyfnod o ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad, sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion, ymatebion y cynigydd a'r ymateb llawn gan Estyn, ar gael yn: www.caerffili.gov.uk/Services/Schools-and-learning/21st-Century-Schools?lang=cy-gb

Y bwriad yw gweithredu'r cynnig gyda dyddiad dod i rym tua mis Medi 2023.

Nifer y disgyblion yn yr ysgol ar hyn o bryd yw 183.

Nifer arfaethedig y disgyblion y bydd lle iddynt yn yr ysgol ar ôl gweithredu'r cynnig fydd 263, i ddarparu lle ar gyfer y garfan bresennol a darparu 80 o leoedd ychwanegol.

Mae'r broses derbyn i'r ysgol yn cael ei rheoli gan yr awdurdod lleol drwy Banel Lleoliadau Arbenigol, lle dilynir proses statudol i drafod anghenion disgyblion unigol.

Mae'r canllawiau 'Mesur capasiti ysgolion yng Nghymru' (2011) yn disgrifio'r dull ar gyfer asesu capasiti pob ysgol brif ffrwd a gynhelir yng Nghymru. Nid yw ysgolion arbennig, fel yn achos Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod, yn ddarostyngedig i'r ddeddfwriaeth hon ac, felly, mae hyn yn golygu nad oes cyfrifiad capasiti cyhoeddedig.

Cynigir cadw dalgylch Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod, sy'n cynnwys ardal gyfan y Fwrdeistref Sirol, fel y mae, fel yr amlinellir yn y Ddogfen Ymgynghori (tudalen 15).

Mae polisi'r Cyngor o ran cludiant ysgol yn darparu cludiant am ddim i'r holl ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod, waeth beth fo'r pellter a'r amgylchiadau teuluol, a darperir y trefniadau cludiant priodol i'r disgyblion, fel y'u pennir gan anghenion y plentyn unigol. Ni fydd effaith ar hyn.

Tŷ Penallta,
Parc Tredomen,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG

Penallta House,
Tredomen Park,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG



Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol
Corporate Director - Education and Corporate Services

www.caerffili.gov.uk | www.caerphilly.gov.uk

Cyfnod gwrthwynebu

O fewn cyfnod o 28 diwrnod i ddyddiad cyhoeddi'r cynnig, hynny yw, rhwng dydd Llun 11 Ionawr 2021 a dydd Sul 7 Chwefror 2021, caiff unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion yn ysgrifenedig neu drwy e-bost i'r cynigydd.

Dylai gwrthwynebiadau trwy e-bost gael eu hanfon i: YsgolionYr21ainGanrif@caerffili.gov.uk
Dylai gwrthwynebiadau ysgrifenedig gael eu hanfon i: Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Ar gyfer sylw Tîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif, Cyfadrn Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol, Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach CF82 7PG

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau a ddaw i law (a heb eu tynnu'n ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu – ynghyd â'i sylwadau ar bob un – pan fydd yn rhoi gwybod i'r rhanddeiliaid am y penderfyniad ar y cynnig.

Richard Edmunds

Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol



Ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Dyddiad: 11 Ionawr 2021

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw hyn yn rhan o'r hysbysiad, ond diben hyn yw egluro'r ystyr gyffredinol)

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cynnig ehangu Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod (Caerphilly Road, Ystrad Mynach, Hengoed CF82 7XW), o 31 Awst 2023.

O 1 Medi 2023, bydd gan ddisgyblion yr ysgol bresennol fynediad i'r cyfleusterau ychwanegol a fydd ar gael yn yr estyniad newydd i'r ysgol.